**<u>Pwyllgor Diwylliant CC 17-02 (p2)</u>**

**Dyddiad:** 6 Tachwedd 2002

**Amser:** 9.00am - 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## ADOLYGU ARIAN Y LOTERI

### Diben

1. Diben y papur hwn yw gofyn am farn y Pwyllgor ar y prif bynciau trafod sy'n codi yn yr adolygiad, ac opsiynau posib ar gyfer cyrraedd targedau'r Cynllun i Gymru a Creative Future: Cymru Greadigol i sicrhau bod cyfeiriad Cymreig penodol i holl ffrydiau'r loteri.

### Cefndir

2. Ar hyn o bryd mae pum corff sy'n dosbarthu arian y Loteri yng Nghymru, sef Cyngor Celfyddyau Cymru, y Gronfa Gymunedol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chyngor Chwaraeon Cymru. Mae Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon yn Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac a reolir yn uniongyrchol ganddo. Daw'r cyfarwyddyd polisi oddi wrth y Cynulliad a'r cyfarwyddyd ariannol oddi wrth DCMS.
3. Mae'r dosbarthwyr eraill, sy'n gweithio ledled y DU, yn cadw at fframwaith polisi ac ariannu a bennir gan DCMS. Ymgynghorir â'r Cynulliad ynghylch llunio cyfeiriad polisi'r cyrff hyn, ond Whitehall sy'n llywio'r agenda.

### Crynodeb

4. Ar 29 Gorffennaf, cyhoeddwyd Adolygiad o Arian y Loteri ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Tessa Jowell a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig sy'n gyfrifol am arian y Loteri. Mae'r Adolygiad yn cydnabod bod angen ystyried a yw'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn adlewyrchu ac yn helpu datblygiad gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Prif bynciau trafod dogfen yr Adolygiad

5. **Sicrhau bod y Loteri'n ymateb yn well i anghenion a blaenoriaethau cymunedau:** hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Loteri, er mwyn i bobl gael gwybod am yr hyn y mae'r Loteri wedi'i wneud yn eu hardal hwy ac am bosibilrwydd denu arian y Loteri i'w cymunedau. Rhoi cyfle i'r cyhoedd leisio barn am sut y caiff arian y Loteri ei wario ac ymhle.
6. **Sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu'n decach i bob ardal a chymuned ledled y DU:** meithrin gallu cymunedau i gynnig yn llwyddiannus am arian y Loteri, targedu ardaloedd neu grwpiau penodol, symleiddio'r broses o wneud cais, siopau un stop.
7. **Edrych ar y ffordd yr ydym yn defnyddio arian y Loteri:** ystyried y mathau o fannau y dylai'r Loteri eu hariannu, helpu prosiectau'r Loteri i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, cydbwyso'r angen i ariannu prosiectau arloesol yn erbyn yr angen i reoli risg, ariannu mentrau cymdeithasol mewn cymunedau.
8. **Darparu arian y Loteri'n effeithlon ac yn effeithiol:** annog mwy o gydweithio rhwng y dosbarthwyr, cadw costau gweinyddu'n isel, pwyso a mesur effeithiau arian y Loteri.

**Canfyddiadau**

9. Daeth yr ymgynghori â'r cyhoedd i ben ar 30 Hydref. Mae swyddogion wrthi'n dadansoddi'r ymatebion yng Nghymru a bydd crynodeb ar gael mewn llyfrgelloedd cyn gynted ag y bo modd. Yn ogystal â'r ymgynghori ffurfiol, mae'r swyddogion a minnau wedi bod yn trafod yn anffurfiol ag amryw o randdeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys y pum corff dosbarthu yng Nghymru a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol a llywodraeth leol.
10. Mae consensws clir o blaid ymdrin yn fwy strategol ag arian y Loteri yng Nghymru, ac awydd i'r Cynulliad fod yn fwy dylanwadol o ran pennu'r cyfeiriad cyffredinol. Cydnabuwyd hefyd bod angen mwy o gydweithio, nid yn unig rhwng y cyrff dosbarthu ond hefyd ag asiantaethau ariannu eraill, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol.
11. Dylid nodi y bu cryn wrthwynebiad yn sgil yr ymgynghori i gael un corff ar gyfer y Loteri yng Nghymru.

**Opsiynau ar gyfer newid**

12. O ran cyrraedd targedau'r Cynllun i Gymru a Creative Future: Cymru Greadigol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried nifer o opsiynau at y dyfodol. Byddaf yn rhoi gwybod i DCMS beth yw barn Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn diwedd mis Tachwedd: bydd barn y Pwyllgor, a barn yr Aelodau yn y cyfarfod llawn, o gymorth i ni lunio ein casgliadau.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn sgil y papur hwn.

**Cydymffurfio**

14. Mae Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn caniatáu i'r Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru, a chyflwyno sylwadau priodol amdano. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

Cangen Polisi'r Loteri a Phrif Ddigwyddiadau

Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon